**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**
—
**Equality and Social Justice Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEquality@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

10 Mehefin 2022

Annwyl gyfaill,

**Ymgynghoriad - y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru)**

Mae'r **Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol** yn y **Senedd** yn cynnal gwaith craffu Cyfnod 1 ar egwyddorion cyffredinol y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru). Mae copi o'r Bil a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig ar gael ar wefan y Senedd.

## Gwahoddiad i gyfrannu i'r ymchwiliad

Hoffai'r Pwyllgor eich gwahodd i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig fel rhan o'i waith o ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil. Wrth ymateb i'r ymgynghoriad, efallai yr hoffech roi barn am gylch gorchwyl y Pwyllgor:

- Egwyddorion cyffredinol y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) a'r angen am ddeddfwriaeth i gyflawni'r bwriad polisi a nodir. Wrth ffurfio barn ar hyn, efallai yr hoffech ystyried darpariaethau allweddol y Bil, sef:
    - sefydlu Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol;
    - dyletswydd statudol ar rai cyrff cyhoeddus i geisio consensws neu gyfaddawd gyda'u hundebau llafur cydnabyddedig, neu (os nad oes undeb llafur cydnabyddedig) gyda chynrychiolwyr staff eraill, wrth bennu eu hamcanion llesiant a chyflawni'r amcanion hynny o dan adran 3(2) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015;
    - dyletswydd statudol ar Weinidogion Cymru i ymgynghori â phartneriaid cymdeithasol, cyflogwyr a chynrychiolwyr gweithwyr drwy'r Cyngor

Partneriaeth Gymdeithasol wrth gyflawni eu hamcanion llesiant o dan adran 3(2)(b) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015;

  - diwygio adran 4 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 drwy roi 'gwaith teg' yn lle 'gwaith addas' yn y nod "Cymru lewyrchus" presennol;
  - dyletswydd statudol ar rai cyrff cyhoeddus i ystyried caffael cyhoeddus sy'n gymdeithasol gyfrifol wrth gyflawni gwaith caffael, i bennu amcanion mewn perthynas â nodau llesiant, ac i gyhoeddi strategaeth gaffael;
  - rhai cyrff cyhoeddus i gyflawni dyletswyddau rheoli contractau i sicrhau yr eir ar drywydd canlyniadau sy'n gymdeithasol gyfrifol drwy gadwyni cyflenwi;
  - dyletswyddau adrodd i'w gosod ar gyrff cyhoeddus a Gweinidogion Cymru mewn perthynas â'r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol a'r ddyletswydd gaffael;

- Unrhyw rwystrau posibl rhag rhoi darpariaethau'r Bil ar waith, ac a yw'r Bil yn eu hystyried;
- Priodoldeb y pwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth (fel y'u nodir ym Mhennod 5 o Ran 1 o'r Memorandwm Esboniadol);
- A oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn deillio o'r Bil; a
- Goblygiadau ariannol y Bil (fel y'u nodir yn Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol).

Os ydych am gyflwyno tystiolaeth, anfonwch eich cyflwyniad at: SeneddCydraddoldeb@Senedd.Cymru erbyn y dyddiad cau, sef **dydd Gwener, 22 Gorffennaf 2022.**

## Canllawiau

Wrth baratoi eich ymateb, gofynnwn i chi ystyried y canllawiau canlynol. Sicrhewch eich bod yn:

- cadw'r ddogfen yn gryno – tua 3,000 o eiriau ar y mwyaf;
- osgoi acronymau a byrfoddau (os byddwch yn eu defnyddio, sicrhewch eu bod yn cael eu hysgrifennu'n llawn y tro cyntaf i chi eu defnyddio);
- cyflwyno eich papur fel un ddogfen (dogfen Word os yn bosibl), gyda'r holl dablau, taenlenni ac atodiadau wedi'u cynnwys yn y papur;
- defnyddio penawdau a pharagraffau wedi'u rhifo er mwyn cael strwythur; a
- defnyddio ffont maint 12 o leiaf (lliw du).

I gael rhagor o wybodaeth, darllenwch y canllawiau i'r rhai syn darparu tystiolaeth ar gyfer pwyllgorau.

### Polisi dwyieithrwydd

Mae'r Pwyllgor yn croesawu cyfraniadau yn y naill neu'r llall o'n hieithoedd swyddogol, Cymraeg a Saesneg, neu'r ddwy. Os na chyflwynir gwybodaeth yn ddwyieithog, ni fydd yn cael ei chyfieithu, a chaiff ei chyhoeddi yn yr iaith y cafodd ei chyflwyno ynddi yn unig. Disgwyliwn i sefydliadau weithredu eu safonau a'u cynlluniau eu hunain a chydymffurfio â'u rhwymedigaethau statudol.

### Sut y byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth

Fel rheol byddwn yn cyhoeddi gohebiaeth neu dystiolaeth ysgrifenedig ar ein gwefan. Os ydych wedi ymateb yn bersonol, bydd eich enw'n cael ei gyhoeddi ynghyd â'ch cyfraniad, oni bai eich bod wedi gofyn i'ch cyfraniad fod yn ddienw. Os ydych wedi ymateb yn eich rôl broffesiynol, bydd y fersiwn o'ch ymateb a gyhoeddir yn cynnwys eich enw, teitl eich swydd/rôl os yw'n berthnasol, ac enw eich sefydliad.

### Manylion cyswllt

Os hoffech siarad â rhywun am yr ymgynghoriad hwn, defnyddiwch y manylion cyswllt a ganlyn:

Clerc y Pwyllgor
Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

E-bost: SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru

Ffôn: 0300 200 6565

Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe gallech anfon copi o'r llythyr hwn at unrhyw unigolyn neu sefydliad a hoffai gyfrannu at y gwaith hwn. Mae copi o'r llythyr hwn wedi'i roi ar wefan y Senedd ynghyd â gwahoddiad agored i gyflwyno sylwadau.

Yn gywir,

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg
We welcome correspondence in Welsh or English